TŶ CERDD
MUSIC CENTRE WALES

"...byd o gerddoriaeth i Gymru: cerddoriaeth Cymru i'r byd ..."

"...a world of music to Wales: the music of Wales to the world..."

Adolygiad Blynyddol
Hydref 2010

Annual Review
Autumn 2010

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

PRS for MUSIC Foundation

Rhagarweiniad – Y Cadeirydd

Fel Cadeirydd Tŷ Cerdd – Music Centre Wales, bu'n fraint i fi dros yr wyth mlynedd a aeth heibio weld sefydlu ei swyddogaeth fel sefydliad sy'n cefnogi pob agwedd ar ddiwylliant cerddoriaeth yng Nghymru. Hyd 2008-09, cafwyd cydweithio agos rhwng Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru a Chanolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru, ond fel cyrff ar wahân. Mae'r freuddwyd o fod yn un sefydliad sy'n gweithio er lles y naill a'r llall wedi'i gwireddu, ac o ganlyniad gall Tŷ Cerdd estyn allan i bob maes o'i waith heb yr hyn a oedd yn ymddangos, ar brydiau efallai, fel rhaniadau gweithgarwch artiffisial. Comisiynu cerddoriaeth, sy'n cael ei pherfformio gan ensemblau cerdd a cherddorion proffesiynol ac amatur fel ei gilydd; y llyfrgell a'r archif, annog perfformio ac ymchwil ym maes cerddoriaeth Gymreig, ar y cyd gyda sicrhau nawdd i gyflogi cerddorion proffesiynol er mwyn hybu safonau perfformio uchel mewn cymdeithasau cerdd dros Gymru benbaladr; y prosiectau *Cyfansoddwyr Ifanc* er mwyn sicrhau bod cyfansoddwyr Cymreig a'u gweithiau o fewn cyrraedd pobl ifanc; sicrhau fod repertoire ensemblau Cerddorion Ifanc Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cerddoriaeth gan gyfansoddwyr Cymreig; cysylltiadau gyda chanolfannau hysbysrwydd cerdd ar draws y byd; cyhoeddi, recordio a hyrwyddo; enghreifftiau yn unig yw'r rhain o sut, hyd yn oed yn ystod blwyddyn gyntaf y Tŷ Cerdd cwbl integredig, y llwyddwyd i roi cefnogaeth strategol i gerddoriaeth yng Nghymru a cherddoriaeth o Gymru.

Mae Tŷ Cerdd yn cefnogi cerddorion yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol drwy Gymdeithas Ryngwladol Canolfannau Hysbysrwydd Cerdd, ac mae'n chwarae rhan flaenllaw yn y dasg o lobïo ar ran cerddoriaeth yng Nghymru. Mae'n gweithio gyda sefydliadau (er enghraifft, y *BBC*, *Making Music,* Cymdeithas Cyfarwyddwyr Corawl Prydain (*Association of British Choral Directors*), *Max* - Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig, Cymdeithas Cerddoriaeth Cymru, a Trac) er mwyn hyrwyddo cyfansoddwyr, cefnogi cerddorion, cyflwyno gweithdai a datblygu strategaethau.

Mae rôl ensemblau cerdd Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r bartneriaeth 'Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru', partneriaeth sy'n bod rhwng Tŷ Cerdd a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru, yn ganolog i ddatblygiad ein cerddorion ifanc. Mae Tŷ Cerdd yn gyfrifol am weinyddu pedwar o'r pum grŵp cerdd cenedlaethol; Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (ynghyd â'r Côîr Hyfforddi Cenedlaethol cysylltiedig i Ieuenctid), Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru a Jazz Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (a Chwrs Mynediad *Jazz Access*). Mae'r grwpiau hyn yn cynnig i'w haelodau y profiad o hyfforddi ar y lefel uchaf. Aeth nifer yn eu blaen i fod yn berfformwyr proffesiynol gan ennill statws cenedlaethol a rhyngwladol, neu'n brif aelodau o rai o Gerddorfeydd neu Fandiau enwocaf y DU. Daeth llawer iawn o unigolion eraill yn eu tro yn hyfforddwyr ac yn arweinyddion ensemblau corawl ac offerynnol, gan roi nôl i Gymru y profiadau a enillwyd ganddynt. Fel hyn, caiff y safonau a amsugnwyd ganddynt eu trosglwyddo ymlaen, a thrwy hynny codir safon y perfformio. Cafodd pob un sydd wedi mwynhau'r profiad o fod yn aelod o ensemblau'r '*Nash*' eu cyfoethogi drwy'r profiad hwnnw.

Mae rhestru gweithgareddau Tŷ Cerdd, hyd yn oed yn rhannol felly, pan fo manylion llawn amdanynt yn ymddangos mewn mannau eraill yn yr adolygiad hwn, yn gallu ymddangos yn rhywbeth dianghenraid, ond ymddengys yn y cyfnod ansicr hwn ei bod yn hanfodol pwysleisio sut y mae Tŷ Cerdd yn estyn allan i Gymru gyfan, ac yn cofleidio diwylliant cerdd sy'n rhan mor sylfaenol o'n cenedl. Rydym yn ymfalchïo fod Tŷ Cerdd yn parhau yn rhan o bortffolio Cyngor y Celfyddydau - Sefydliadau sy'n Cael Cyllid Refeniw - ond yn pryderu am y cwtogi yn y gefnogaeth i gerddorion Cymru fyddai'n rhwym o ddigwydd yn sgil unrhyw leihad mewn nawdd. Rydym yn gwbl ymwybodol o'r anawsterau sy'n codi o'r hinsawdd

economaidd fel sydd ohoni; eto i gyd, rydym yn edrych am sicrwydd na fydd dim yn cael ei wneud i beryglu, nid yn unig gwaith Tŷ Cerdd a'i swyddogaeth hanfodol ym mywyd diwylliannol Cymru, ond gwaith y celfyddydau yn gyffredinol. Yn ystod cyfnodau anodd, mae hyd yn oed yn fwy hanfodol bod gwerth yn cael ei rhoi ar ddyheadau creadigol cenedl.

Bu Keith Griffin, Cyfarwyddwr Tŷ Cerdd, yn gweithio'n ddiflino ac yn flaengar iawn er mwyn cychwyn nifer o fentrau, a hynny dros gyfnod o ddeugain mlynedd bron. Gosododd sylfaen ei waith wrth weinyddu Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru, ond datblygodd ei gylch gorchwyl i sefydlu'r hyn sydd, erbyn heddiw, yn wir Ganolfan i Gerddoriaeth Cymru - Tŷ Cerdd. Bu'n rhaid iddo fentro mewn ffydd yn achos nifer o arferion arloesol sydd bellach yn cael eu cydnabod fel rhai hynod lwyddiannus. Cofiaf yn dda y cwrs corawl peilot, dan arweiniad George Guest, a gynhaliwyd mewn gwesty glan-môr yn Aberystwyth, cwrs a balmantodd y ffordd tuag at ffurfio Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn haf y flwyddyn ddilynol - a dim ond un enghraifft yw hon.

Bu cael y cyfle i fod yn rhan o FfCAC a CHCC a'u gweld yn ffurfio'r sefydliad unigryw hwn - Tŷ Cerdd - Music Centre Wales - yn fraint o'r mwyaf yn fy hanes. Pe bai ei waith yn cael ei leihau mewn unrhyw ffordd, yn hytrach na'i fod yn tyfu mewn nerth, yna dyna fyddai'n peri'r tristwch mwyaf i mi.

I gloi, carwn ddiolch i bawb sy'n gysylltiedig â Tŷ Cerdd am yr holl gyfeillgarwch, cymorth a chefnogaeth a roddwyd mor ddibrin i mi dros flynyddoedd lawer. Rwy'n hyderus y bydd y gefnogaeth hon nid yn unig yn parhau i'r rhai fydd yn arwain y gwaith gyda Tŷ Cerdd, ond yn wir yn cael ei chryfhau gan y sialensiau sydd i ddod.

Avril Harding
Cadeirydd

Chairman's Introduction

As Chairman of Tŷ Cerdd – Music Centre Wales it has been my privilege during the past eight years to see its role established as an organisation which supports every aspect of the culture of music in Wales. Until 2008-09 Welsh Amateur Music Federation and Welsh Music Information Centre had worked closely together, but as separate bodies. The realisation of being one organisation working to the mutual benefit of both has been achieved, resulting in Tŷ Cerdd's being able to reach out to all areas of its work without what, at times, may have sometimes seemed to be artificial divisions of activity. Commissioning music, which is performed both by professional and amateur music ensembles and musicians; the library and archive, encouraging performance and research of Welsh music, allied with funding to engage professional musicians to promote high standards of performance in musical societies throughout Wales; the *Young Composers* projects to make Welsh composers and their work accessible to young people; ensuring the National Youth Music ensembles include the music of Welsh composers in their repertoire; links with music information centres around the world; publishing, recording and promotion; these are just a few examples of how, even in the first year of a fully integrated Tŷ Cerdd, success has been achieved in supporting strategically music in and of Wales.

Tŷ Cerdd supports musicians locally, nationally, and internationally through the International Association of Music Information Centres, and plays a strong part in lobbying on behalf of music in Wales. It works with organisations (for example, BBC, Making Music, Association of British Choral Directors, WNO Max, Welsh Music Foundation, Welsh Music Guild, and TRAC) to promote composers, support musicians, deliver workshops and develop strategies.

The role of the National Youth Music ensembles, delivered within the National Youth Arts Wales partnership between Tŷ Cerdd and WJEC, is central to the development of our young musicians. Tŷ Cerdd administers four of the five national music groups; National Youth Brass Band, National Youth Choir (with its associated National Youth Training Choir), National Youth Wind Orchestra and National Youth Jazz (and Jazz Access). These groups afford their members the experience of training at the highest level. Many have become professional performers of national and international status, or principal members of some of the UK's best known Orchestras or Bands. A great many others have in their turn become the trainers and conductors of choral and instrumental ensembles, giving back to Wales the experience they gained. In this way, the standards they have absorbed are being passed on, lifting the level of performance. All who have enjoyed the 'nationals' experience have been enriched by it.

It may seem unnecessary to list even partially the activities of Tŷ Cerdd which are detailed fully elsewhere in this review, but it would seem that in these uncertain times it is essential to stress how Tŷ Cerdd reaches out to the whole of Wales, embracing the culture of music which is such a fundamental part of our nation. We are delighted that Tŷ Cerdd remains within the Arts Council's portfolio of Revenue Funded Organisations, but concerned over the curtailment of support for Welsh musicians that any reduction in funding would inevitably imply. We are well aware of the difficulties arising from the current economic climate; nonetheless, we look for assurance that nothing will done to endanger not only the work of Tŷ Cerdd and the vital role it plays in the cultural life of Wales, but of the arts generally. In difficult times it is even more essential that a nation's creative aspirations are valued.

The Director of Tŷ Cerdd, Keith Griffin, has worked tirelessly, with great foresight delivering many initiatives over nearly forty years. He laid the foundation of his work in administering Welsh Amateur Music Federation, but has developed his remit to establish a true *Music Centre Wales.* In many instances innovative practices, now acknowledged as highly successful, required a leap of faith on his part. As just one example, I well remember the choral pilot course, conducted by George Guest, and held in an Aberystwyth sea-front hotel, which led the following summer to the formation of the National Youth Choir of Wales.

It has been a tremendous pleasure to have had the opportunity to be a part of WAMF and WMIC, to see them become the unique organisation which is Tŷ Cerdd - Music Centre Wales. My greatest sadness would be if, rather than growing in strength, its work were to be diminished in any way.

In conclusion, may I thank everyone associated with Tŷ Cerdd for all the friendship, help and support given so unstintingly to me over many years. I am confident that this support will not only continue for those who will lead and work with Tŷ Cerdd, but indeed be strengthened by the challenges that lie ahead.

Avril Harding
Chairman

Manylion am y Sefydliad

Mae Tŷ Cerdd – Music Centre Wales yn gymdeithas anghorfforedig ac yn elusen gofrestredig (Rhif 503433).

Mae Tŷ Cerdd yn gweithio gyda sefydliadau a cherddorion dros Gymru gyfan, ac mae ganddo gylch gwaith rhyngwladol am ei fod yn aelod o Gymdeithas Ryngwladol Canolfannau Hysbysrwydd Cerddoriaeth (*International Association of Music Information Centres* (IAMIC)).

Mae Tŷ Cerdd yn:

- ganolfan graidd sy'n cael ei defnyddio'n helaeth ac sy'n gyrru'r gwaith o greu, datblygu, hyrwyddo a pherfformio cerddoriaeth yng Nghymru ac o Gymru yn ei flaen;
- mae ganddo gylch gwaith lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac mae'n ymdrechu'n llwyddiannus i gyfuno hunaniaethau cerddorol cydnabyddedig a phrofedig gydag arloesedd artistig cyffrous yn ei feysydd ei hun;
- mae'n strategol arwyddocaol o ran y swyddogaeth ddatblygu ehangach sy'n cael ei chwarae ganddo ym maes cerddoriaeth, ac mae'n ategu gwaith sefydliadau eraill sy'n hybu *genres* cerddorol arall;
- mae wedi dwyn ynghyd sefydliadau cerdd a fu unwaith ar wahân, er eu bod yn rhyng-ddibynnol, ac yn hynny o beth mae'r cyfanwaith yn llawer mwy na chyfanswm y rhannau unigol;
- mae'n hybu, nid yn unig datblygiad cerddoriaeth gyfoes a cherddoriaeth ieuenctid yn ei faes, ond hefyd y gorau o draddodiadau cerddorol Cymru;
- mae ganddo raglen addysg fywiog ac arloesol, sy'n cynnwys y *Gyfres Cyfansoddwyr Ifanc* a ddatblygwyd mewn partneriaeth gydag ysgolion a cholegau;
- mae wedi sefydlu ac yn gweinyddu pedwar o'r pum ensemble cerdd cenedlaethol i ieuenctid yng Nghymru;
- mae'n darparu ar gyfer aelodaeth helaeth, gyfranogol o berfformwyr cerdd sy'n perthyn i bob rhan o'r sbectrwm demograffig, sydd, yn eu tro yn tanategu, o safbwynt cyllid a chelfyddyd, cryn dipyn o'r gweithgarwch proffesiynol sy'n ennyn ein gwerthfawrogiad llwyraf. Hebddyn nhw, ni fyddai unrhyw brofiad o gerddoriaeth fyw yn dod i ran nifer o gynulleidfaoedd a chyfranogwyr sydd wedi'u hamddifadu'n gymdeithasol ac yn ddaearyddol.
- mae'n hyrwyddo cyfansoddwyr Cymreig a'u gwaith;
- mae ganddo gysylltiadau cryf yn ogystal â phartneriaethau creadigol gyda sefydliadau a cherddorion sy'n perfformio cerddoriaeth yn broffesiynol, gyda'r llywodraeth ar lefel leol a chenedlaethol, a gydag amrywiaeth eang o gyrff eraill sy'n ymwneud â meithrin a hyrwyddo cerddoriaeth yng Nghymru, y DU, ac yn rhyngwladol fel aelod o Gymdeithas Ryngwladol Canolfannau Hysbysrwydd Cerdd;
- fel un o'r "Naw Creadigol", mae'n cyfrannu'n unigryw i'r gweithgareddau a'r partneriaethau creadigol oddi mewn i Ganolfan Mileniwm Cymru, a hynny drwy ddarparu nifer sylweddol o gyngherddau cyntedd rhad ac am ddim y Ganolfan;
- mae'n trefnu ac yn cyflwyno *Healthy Sounds!/Synau Iachus!* – cynllun sy'n dod â pherfformiadau cerdd gan grwpiau cerdd cymunedol i ysbytai a chartrefi gofal dros Gymru gyfan.

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, er bod y sefydliad yn parhau yn rhan o "bortffolio" Cyngor y Celfyddydau, mae lefel ariannu Tŷ Cerdd a'r celfyddydau'n gyffredinol yn ansicr o safbwynt y dyfodol. Er hyn, mae Tŷ Cerdd – Music Centre Wales, yn edrych ymlaen at gyfleoedd newydd, cyffrous fydd yn ei alluogi i gefnogi a hyrwyddo cerddoriaeth yng Nghymru, ac o Gymru.

About the Organisation

Tŷ Cerdd – Music Centre Wales is an unincorporated association and registered charity (No 503433).

Tŷ Cerdd works with organisations and musicians throughout Wales, and has an international remit through membership of the International Association of Music Information Centres (IAMIC).

Tŷ Cerdd

- is a widely used powerhouse driving the creation, development, promotion and performance of music in and of Wales;
- has a local, national and international remit, aspiring successfully to synergise recognised and proven musical identities with exciting artistic innovation in its own fields;
- is strategically significant in terms of the wider music development role that it plays, complementing the work of other organisations promoting other music genres;
- has brought together formerly separate, though interdependent, music organisations, in which the whole is far greater than the sum of the individual parts;
- promotes not only the development of contemporary and youth music in its field, but also the best of the music traditions of Wales;
- has a vibrant and innovative education programme, including *Young Composers Series*, developed in partnership with schools and colleges;
- founded and administers four of the five national youth music ensembles of Wales;
- provides for a large and involved membership base of music performers from across the demographic spectrum, who underpin, both financially and artistically, much of the professional activity that we most value. Without them, many socially and geographically deprived audiences and participants would have no experience of live music.
- promotes Welsh composers and their work;
- has strong links and creative partnerships with professional music performing organisations and musicians, with government at local and national level, and with a wide range of other bodies involved in the nurturing and promotion of music in Wales, the UK, and internationally as a member of the International Association of Music Information Centres;
- makes a unique contribution as one of the "Creative Nine", to the activities and creative partnerships within the Wales Millennium Centre through the provision of a significant number of the Centre's free foyer concerts;
- organises and delivers *Healthy Sounds!/Synau Iachus!* – a scheme that brings music performances by local community-based music groups to hospitals and care homes throughout Wales.

At the time of writing, though the organisation remains within the Arts Council's "portfolio", the future level of funding of Tŷ Cerdd and of the arts in general is uncertain. Notwithstanding this, Tŷ Cerdd – Music Centre Wales looks forward to exciting new opportunities in supporting and promoting music in, and of, Wales.

Nodyn Hanesyddol

Sefydlwyd Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru ym 1969 gan Gyngor Celfyddydau Cymru, fel ac yr oedd bryd hynny, er mwyn datblygu gwaith y Cyngor ymhlith sefydliadau cerdd cymunedol (ar hyn o bryd mae dros 400 o gymdeithasau sy'n hyrwyddo cerddoriaeth ym mhob cwr o Gymru yn aelodau o Tŷ Cerdd). Ym 1999, cynigiodd y Ffederasiwn roi cartref i'r casgliad marwaidd (bryd hynny) o sgoriau ac effemera oedd yn eiddo i Ganolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru oedd wedi peidio â bod, gyda'r bwriad tymor hir o sicrhau bod y deunydd hwn ar gael ar gyfer ymchwil a pherfformiad. Rhoddwyd grant ychwanegol cymharol fychan gan Gyngor Celfyddydau Cymru, grant oedd yn cael ei weinyddu gan y Ffederasiwn, er mwyn ailsefydlu Canolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru a ail-gorfforwyd yn 2000. Roedd y bwriad yn glir, fodd bynnag, y dylai gwaith y ddau sefydliad ym maes hyrwyddo cerddoriaeth Gymreig a cherddoriaeth yng Nghymru fod yn gyflenwol, ac y dylai'r sefydliadau, maes o law, gael eu dwyn ynghyd dan enw "Tŷ Cerdd" - rhyw fath o siop un stop. Cwrdd â chostau gweinyddol yn unig a wnâi arian Cyngor y Celfyddydau yn achos Canolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru. Fodd bynnag, yn sgil y symud i Ganolfan y Mileniwm yn 2004, roedd y cyfleusterau amgen ar gyfer y llyfrgell, y stiwdio recordio, ynghyd â'r arian ychwanegol a gafwyd drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru/Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer cynyddu'r adnoddau staffio a gwaith hyrwyddo yn golygu y gallai'r ddau sefydliad ddatblygu dimensiwn cyflenwol "Tŷ Cerdd" eu gwaith, a hynny drwy weithio mewn partneriaeth, partneriaeth nad oedd yn cael ei llesteirio gan yr arfer honno, sy'n aml yn ddi-fudd, sef rhannu cerddorion yn ddwy adran, "amatur" neu "broffesiynol". Ym mis Mehefin 2009, daeth Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru a Chanolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru at ei gilydd i ffurfio Tŷ Cerdd - Music Centre Wales.

Historical Note

The Welsh Amateur Music Federation had been founded by the then Welsh Arts Council in 1969, in order to develop the Council's work amongst community based music organisations (currently over 400 music-promoting societies throughout Wales are members of Tŷ Cerdd). In 1999, the Federation offered to house the then moribund collection of scores and ephemera belonging to the defunct Welsh Music Information Centre, with the longer term aim of making this material available for research and performance. Modest additional funding, administered by the Federation, was made by the Arts Council of Wales to re-establish the Welsh Music Information Centre, which was re-constituted in 2000. The intention was clear, however, that the work of both organisations in the promotion of Welsh music and music in Wales should be complementary, and that in due course the organisations should amalgamate under the head of "Tŷ Cerdd" – a kind of one stop shop. ACW funding for WMIC covered only administrative costs. However, with the move to the Wales Millennium Centre in 2004, improved library facilities, recording studio, and additional funding via WAG/ACW for increased staffing resources and promotion meant that both organisations could develop the complementary "Tŷ Cerdd" dimension of their work, in partnership working that was not restrained by the often unhelpful compartmentalising of musicians into "amateur" or "professional". Through their amalgamation in June 2009, the Welsh Amateur Music Federation and the Welsh Music Information Centre combined to form Tŷ Cerdd – Music Centre Wales.

Cerrig Milltir

1969 Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn cael ei sefydlu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, fel yr oedd bryd hynny, er mwyn datblygu gwaith y Cyngor ymhlith rhyw 120 o sefydliadau cerdd cymunedol.

1971 Y Cyngor yn penodi Swyddog Cerdd a chynorthwyydd gweinyddol rhan amser er mwyn datblygu'r gwaith hwn.

1972- Cylch cyfrifoldeb mewn perthynas ag aelodaeth, oedd yn wreiddiol yn cynnwys bandiau pres, corau merched, corau meibion a chorau cymysg, cerddorfeydd a cherddoriaeth werin draddodiadol, yn cael ei ymestyn i gynnwys cymdeithasau theatr gerdd a chymdeithasau operatig, bandiau chwyth, grwpiau ieuenctid, ynghyd ag amrywiaeth o *genres* cerddorol eraill.

1974- Strategaethau wedi'u sefydlu er mwyn cefnogi comisiynau cerdd, gweithdai arwain a repertoire, ac yna i ddilyn, partneriaethau gyda gwasanaethau cerdd awdurdodau addysg lleol i archwilio'r ddarpariaeth gerdd i ieuenctid yn gyffredinol, a datblygu cyfleoedd newydd i gerddorion ifanc uchel eu cyrhaeddiad.

1976- Partneriaethau gyda Chymdeithasau Celfyddydau Rhanbarthol yn cael eu sefydlu er mwyn cefnogi mewnbwn proffesiynol i godi safonau perfformio.

1979 Aelodaeth - 200 o gymdeithasau a mwy.

1980 Gwobr W S Gwynn Williams yn cael ei chyflwyno am gynnydd.

1982 Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn cael ei ffurfio.

1984 Cwrs peilot yn arwain at ffurfio Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn y flwyddyn ddilynol; cynhaliwyd cyngerdd sefydlu'r Côr yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

1985 Nawdd cychwynnol a chyllid Blwyddyn Gerdd Ewrop (*European Music Year*) wedi'u gwarantu ar gyfer Band Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a Chôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.

1986 Taith gyngerdd Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru i'r Iseldiroedd – y daith gyntaf mewn rhaglen ddatblygol o deithiau a chydweithrediadau rhyngwladol.

1986 Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn perfformio fel ensemble gwadd yng nghystadleuaeth a chynhadledd Bandiau Pres Ewrop yn Neuadd Dewi Sant.

1987 Cynllun prynu offerynnau yn cael ei ddatblygu - rhagredegydd darpariaeth ddiweddarach y Loteri Genedlaethol.

1988 Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn perfformio yn Neuadd Frenhinol Albert ac yng Ngŵyl Cerddoriaeth yr 20fed Ganrif Caerdydd.

1989 Cydweithio rhwng Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a Band Pres Cenedlaethol Norwy.

1990 Taith gyngerdd Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru i Norwy.

1992 Taith gyngerdd Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru i ddwyrain yr Almaen, fel ag yr oedd, gyda pherfformiad yn y cyngerdd blynyddol i goffâu J.S. Bach yn y Thomaskirche yn Leipzig – y côr cyntaf i dderbyn gwahoddiad i gymryd rhan.

1993 Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn dod yn sefydliad cwbl annibynnol.

1993 Diddymu Canolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru, a ffurfiwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac adran Gerdd Prifysgol Caerdydd, oherwydd bod y nawdd a'r llety wedi'i dynnu nôl; yr archif yn cael ei chadw.

1995 Aelodaeth bellach yn 300 a mwy o gymdeithasau.

1996 Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru i Wlad Belg a Ffrainc.

1996 Perfformiad o *Requiem* Faure gan Gôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru gyda Cherddorfa Siambr Lloegr a Bryn Terfel; darllediad teledu o Gadeirlan Caer-wynt (*Winchester*).

1997 CD clodwiw o gerddoriaeth gorawl Gymreig yn cael ei recordio gan Gôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.

1999 Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn symud o'i lety "ewyllys da" yng Nghyngor Celfyddydau Cymru i'w adeiladau ei hun. Fel rhan o'r datblygiad hwn, mae'n cynnig rhoi cartref i'r casgliad o sgoriau ac effemera oedd gynt yn eiddo i Ganolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru gyda'r bwriad tymor hir o sicrhau bod y deunydd hwn ar gael ar gyfer ymchwil a pherfformio.

2000 Canolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru, dan Gyfarwyddwr y Ffederasiwn, yn derbyn cyfansoddiad newydd gyda'r bwriad strategol y dylai gwaith y ddau sefydliad ym maes hybu cerddoriaeth Gymreig a cherddoriaeth yng Nghymru fod yn gyflenwol, ac y dylai'r sefydliadau, maes o law, ddod at ei gilydd dan enw "Tŷ Cerdd – Music Centre Wales" – rhyw fath o siop un stop.

2000 Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn cael ei ffurfio - partneriaeth rhwng Tŷ Cerdd (Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru) a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC).

2000 Penodi archifydd rhan amser (2.5 staff)
2000 Dechrau ar y gwaith o gatalogio a hyrwyddo archif ac effemera cerddoriaeth Gymreig Canolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru.
2001 Tŷ Cerdd yn derbyn gwahoddiad i fod yn un o'r sefydliadau preswyl yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.
2001 Taith gyngerdd Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru i Awstria a Hwngari.
2001 Tŷ Cerdd yn ffurfio Jazz Cenedlaethol Ieuenctid Cymru oddi mewn i bartneriaeth Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.
2002 Tŷ Cerdd yn ffurfio Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru oddi mewn i bartneriaeth Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.
2002 Penodi gweinyddwr ychwanegol (3.5 staff)
2003 Swydd yr archifydd rhan amser yn dod yn swydd amser llawn (4 staff)
2003 Tŷ Cerdd yn ffurfio Band Pres Symffonig Cenedlaethol Ieuenctid Cymru oddi mewn i bartneriaeth Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.
2004 Penodi staff ychwanegol (2) i gefnogi swyddogaeth a chyfrifoldebau newydd Tŷ Cerdd (6 staff)
2004 Tŷ Cerdd (FfCAC a CHCC) yn symud i Ganolfan Mileniwm Cymru, yn comisiynu'r ffanffer agoriadol (a berfformiwyd gan Fand Pres Symffonig Cenedlaethol Ieuenctid Cymru) ac, ar y cyd gyda CMC, yn trefnu perfformiadau gan Gôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a 2,000 o gantorion o aelod-gorau ar draws Cymru gyfan.
2004 Cyfarparu'r stiwdio recordio; dechrau ar y rhaglen recordiadau.
2005 Dechrau ar Raglen o gyngherddau am ddim mewn partneriaeth gyda Chanolfan Mileniwm Cymru ac aelod-sefydliadau cerdd Tŷ Cerdd.
2005 Dechrau ar raglen o weithdai ar draws Cymru gyfan mewn partneriaeth gyda sefydliadau preswyl CMC ac eraill.
2005 Tŷ Cerdd yn ffurfio Côr Hyfforddi Cenedlaethol Ieuenctid Cymru er mwyn targedu ardaloedd sy'n brin o hyfforddiant corawl, ac i gefnogi'r dasg o recriwtio ar gyfer Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.
2005 Ailstrwythuro'r staff (6 staff + swyddog datblygu Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru).
2006 Band Pres Symffonig Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn cymryd rhan yn seremoni agoriadol y Senedd; Tŷ Cerdd yn comisiynu gwaith newydd ar gyfer yr achlysur.
2006 Taith gyngerdd Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru i'r Iwerddon.
2007 Taith gyngerdd Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru i Ganada.
2007 Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru – yr ensemble ieuenctid cenedlaethol cyntaf o Gymru i berfformio yn *Proms* y BBC yn Llundain.
2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi'r cyfrifoldeb am gyflwyno *Synau Iachus!* i Tŷ Cerdd.
2008 Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a stiwdio recordio Tŷ Cerdd er mwyn cyflwyno prosiect Amgylcheddol mawr ar gyfer ieuenctid.
2008 Dechrau ar brosiect *Cyfansoddwr Ifanc* Tŷ Cerdd mewn ysgolion a cholegau.
2008 Cynhadledd flynyddol Cymdeithas Ryngwladol Canolfannau Hysbysrwydd Cerdd (*IAMIC*) yn cael ei threfnu a'i chynnal yng Nghymru gan Tŷ Cerdd.
2008 Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a Band Pres Symffonig Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn perfformio yn Eglwys Gadeiriol Caergaint fel rhan o gynllun Cerddoriaeth yn y Gymuned Rhondda Cynon Taf.
2008 Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn newid ei enw i Tŷ Cerdd – Music Centre Wales ac yn mabwysiadu cyfansoddiad newydd.
2009 Canolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru yn mabwysiadu cyfansoddiad newydd Tŷ Cerdd; y sefydliadau'n cyfuno'n ffurfiol dan yr enw Tŷ Cerdd – Music Centre Wales.
2009 Taith gyngerdd ryngwladol gyntaf Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru (i Lwcsembwrg).
2009 Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn perfformio yn *Proms* y BBC am yr ail waith; ensemblau ieuenctid cenedlaethol eraill yn cael llwyfan mewn gwyliau ar draws Cymru.
2009 *Cyfres Cyfansoddwr Ifanc* yn cael ei hyrwyddo fel prosiect addysg o bwys yng Ngŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru.
2009 Am y tro cyntaf, aelodaeth Tŷ Cerdd yn cyrraedd 400 cymdeithas a mwy.
2010 Lansio rhaglen gyhoeddi bwysig o weithiau Grace Williams.
2010 Y gwaith mawr o ail-greu'r wefan a datblygu gwasanaethau gwybodaeth newydd ar y gweill.

Milestones

1969 Welsh Amateur Music Federation founded by the then Welsh Arts Council in order to develop the Council's work amongst some 120 community based music organisations.

1971 Music officer and part time administrative assistant appointed by the Council to develop this work.

1972- Membership remit, originally embracing brass bands, ladies, male and mixed choirs, orchestras and traditional folk music, expanded to include musical theatre and operatic societies, wind bands, youth groups, and a variety of other musical genres.

1974- Strategies put in place to support music commissions, conducting and repertoire workshops, followed by partnerships with local education authority music services to examine youth music provision generally, and develop new opportunities for high-achieving young musicians.

1976- Partnerships with the Regional Arts Associations established to support professional input to raise standards of performance.

1979 Membership passes 200 organisations.

1980 W S Gwynn Williams Award for progress introduced.

1982 Formation of the National Youth Brass Band of Wales

1984 Pilot course leading to the formation of the National Youth Choir of Wales the following year, its inaugural concert given at the National Eisteddfod.

1985 Initial sponsorship and European Music Year funding secured for National Youth Brass Band of Wales and National Youth Choir of Wales.

1986 Tour to The Netherlands by National Youth Brass Band of Wales– the first in a developing programme of international tours and collaborations.

1986 National Youth Brass Band of Wales performs as guest ensemble at the European Brass Band contest and conference at St David's Hall.

1987 Instrument purchase scheme developed - a fore-runner of later National Lottery provision.

1988 National Youth Brass Band of Wales performs at the Royal Albert Hall and the Cardiff Festival of 20th Century Music.

1989 National Youth Brass Band of Wales collaboration with National Youth Band of Norway.

1990 Tour to Norway by National Youth Brass Band of Wales

1992 Tour to the former east Germany by National Youth Choir of Wales, including performance at the Thomaskirche in Leipzig in annual J.S.Bach commemoration concert, the first choir to have been invited to do so.

1993 Welsh Amateur Music Federation becomes fully independent organisation.

1993 Welsh Music Information Centre, formed by ACW and Cardiff University music department, disbanded through withdrawal of funding and ccommodation; archive mothballed.

1995 Membership passes 300 organisations.

1996 Tour to Belgium and France by National Youth Choir of Wales.

1996 Performance of *Faure* Requiem by National Youth Choir of Wales with English Chamber Orchestra and Bryn Terfel televised from Winchester Cathedral.

1997 Acclaimed CD of Welsh choral music recorded by National Youth Choir of Wales.

1999 Welsh Amateur Music Federation moves from its "grace and favour" accommodation at ACW to its own premises. As part of this development, it proposes housing the collection of scores and ephemera formerly belonging to the Welsh Music Information Centre, with the intention of making this material available for research and performance.

2000 Re-constitution of the Welsh Music Information Centre under the Federation's Director with the strategic intention that the work of both organisations in the promotion of Welsh music and music in Wales should be complementary, and that in due course the organisations should amalgamate as "Tŷ Cerdd – Music Centre Wales" – a kind of 'one-stop shop'.

2000 Formation of National Youth Arts Wales, a partnership between Tŷ Cerdd (WAMF) and the WJEC.

2000 Appointment of part-time archivist (staff 2.5)

2000 Commencement of cataloguing and promotion of WMIC Welsh music archive and ephemera.

2001 Tŷ Cerdd invited to become one of the resident organisations in the WMC.

2001 Tour to Austria and Hungary by National Youth Choir of Wales.

2001 Formation of National Youth Jazz Wales by Tŷ Cerdd within the NYAW partnership.
2002 Formation of National Youth Wind Orchestra of Wales by Ty Cerdd within the NYAW partnership.
2002 Appointment of additional administrator (staff 3.5)
2003 Part-time archivist appointment becomes full time post (staff 4).
2003 Formation of National Youth Symphonic Brass Wales by Tŷ Cerdd within the NYAW partnership.
2004 Appointment of additional staff (2) to support Tŷ Cerdd new role and responsibilities (staff 6).
2004 Tŷ Cerdd (WAMF and WMIC) moves to Wales Millennium Centre, commissioning the opening fanfare (performed by National Youth Symphonic Brass Wales), and organising in partnership with WMC performances by the National Youth Choir of Wales and 2,000 choristers from member choirs throughout Wales.
2004 Recording studio equipped; recordings programme commenced.
2005 Programme of free concerts in partnership with the Wales Millennium Centre and Tŷ Cerdd member music organisations commenced.
2005 Programme of workshops commenced throughout Wales in partnership with resident organisations at WMC and others.
2005 Formation of National Youth Training Choir of Wales by Tŷ Cerdd to target areas lacking choral training, and to support recruitment for the National Youth Choir of Wales.
2005 Staff restructuring (staff 6 plus NYAW development officer).
2006 National Youth Symphonic Brass Wales participates in Senedd opening ceremony, for which Ty Cerdd commissions new work.
2006 Tour to Eire by National Youth Choir of Wales.
2007 Tour to Canada by National Youth Brass Band of Wales.
2007 National Youth Choir of Wales becomes the first Welsh national youth ensemble to perform at BBC London Proms
2008 Welsh Assembly Government tasks Ty Cerdd with delivering *Healthy Sounds!*
2008 Partnership between Welsh Assembly Government and Ty Cerdd recording studio to deliver major youth Environment project.
2008 Tŷ Cerdd schools and colleges *Young Composers Project* commences.
2008 International Association of Music Information Centres annual conference organised and hosted in Wales by Tŷ Cerdd.
2008 National Youth Choir of Wales and National Youth Symphonic Brass Wales perform at Canterbury Cathedral as part of RCT Music in the Community scheme.
2008 Welsh Amateur Music Federation changes name to Tŷ Cerdd – Music Centre Wales and adopts new constitution.
2009 Welsh Music Information Centre adopts new Tŷ Cerdd constitution; organisations formerly amalgamate as Ty Cerdd – Music Centre Wales.
2009 First international tour by National Youth Wind Orchestra of Wales (to Luxembourg).
2009 National Youth Choir of Wales performs at BBC Proms for the second time; other national youth ensembles featured at festivals throughout Wales.
2009 *Young Composers series* promoted as major education project in North Wales international Music Festival.
2009 Tŷ Cerdd membership passes 400 organisations for the first time
2010 Launch of major publication of works by Grace Williams
2010 Major rebuild of website, and development of new information services.

Gweithgareddau

O dderbyn bod dulliau mynegiant mewn perthynas â chreu cerddoriaeth yn werthfawr ac yn rhyng-ddibynnol ar bob lefel, mae amrediad gweithgareddau cydgysylltiol strategol Tŷ Cerdd yn eang ac, at ei gilydd, yn cynnwys:

- Dadlau dros gerddoriaeth a cherddorion Cymreig yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol;
- Comisiynu – cerddoriaeth gan gyfansoddwyr Cymreig (ac eraill)
- Hyrwyddo Cyngherddau – drwy ddarparu grantiau a repertoire;
- Addysg – Cyfres *Cyfansoddwyr Ifanc*, gwaith gydag ysgolion a cholegau;
- Arddangosfeydd – yng Nghanolfan y Mileniwm, yr eisteddfod, a chynadleddau;
- Ariannu – er mwyn codi safonau perfformio;
- Gwybodaeth – am gerddoriaeth a cherddorion Cymru;
- Cysylltiadau rhyngwladol a theithio – drwy Gymdeithas Ryngwladol Canolfannau Hysbysrwydd Cerdd (*IAMIC*) a Chelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru;
- Llyfrgell (perfformio ac ymchwil) – dros 6,000 o weithiau;
- Lobïo – gyda'r Rhwydwaith Celfyddydau Gwirfoddol(*Voluntary Arts Network*), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (*Wales Council for Voluntary Action*) ac *IAMIC*;
- Monitro – tueddiadau a datblygiadau;
- Ensemblau Cerdd Cenedlaethol Ieuenctid Cymru – 4 allan o'r 5 grŵp cerdd cenedlaethol;
- Estyn Allan – drwy ysgolion, ysbytai, a'r gymuned leol;
- Partneriaethau – er mwyn cyflwyno prosiectau ac osgoi gorgyffwrdd;
- Perfformiadau – yng Nghanolfan Mileniwm Cymru a thrwy Gymru gyfan;
- Hyrwyddo – drwy'r wefan, taflenni newyddion, ac addysg;
- Cyhoeddi – cefnogi a chyfarwyddo;
- Recordio – cerddoriaeth ac artistiaid Cymreig;
- Ymchwil – cerddoriaeth o Gymru, ac yng Nghymru;
- Hyfforddi – cerddorion ifanc mewn ensemblau cenedlaethol;
- Gweithdai – gwell perfformiadau a repertoire ehangach.

Activities

Given its belief that the expressions of music-making at all levels are valuable and inter-dependent, Tŷ Cerdd's range of strategically inter-linked activities is wide and includes overall:

- Advocacy of Welsh music and musicians locally, nationally and internationally;
- Commissioning – music by Welsh (and other) composers;
- Concert promotion – through grants and repertoire provision;
- Education – *Young Composers Series*, work with schools and colleges;
- Exhibition – at Wales Millennium Centre, National Eisteddfod, and conferences;
- Funding – to raise standards of performance;
- Information – about Welsh music and musicians;
- International links and touring – though the International Association of Music Information Centres and National Youth Arts Wales;
- Library (performance and research) – over 6,000 works;
- Lobbying – with Voluntary Arts Network, Wales Council for Voluntary Action and IAMIC;
- Monitoring – trends and developments;
- National Youth Music Ensembles – 4 of the 5 national music groups;
- Outreach – through schools, hospitals, and the local community;
- Partnerships – to deliver projects and avoid over-lap;
- Performances – at Wales Millennium Centre and throughout Wales;
- Promotion – through website, newsletters, and education;
- Publishing – support and direct;
- Recording – Welsh music and artists;
- Research – music of, and in, Wales;
- Training – young musicians in national ensembles;
- Workshops – better performances and more extensive repertoire.

Crynodeb o weithgareddau a llwyddiannau yn 2009-10:

- cafodd pob un o'r 10 darn newydd o gerddoriaeth a gomisiynwyd gan Tŷ Cerdd eu hail-berfformio;
- Enillodd *Farewell*, gan Adam Gorb, a gomisiynwyd gan Tŷ Cerdd ar gyfer Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru, Wobr Cyfansoddwr Prydeinig (*British Composer Award*) Cymdeithas Cyfansoddwyr Caneuon, Cyfansoddwyr ac Awduron Prydain (*British Association of Songwriters, Composers and Authors (BASCA);*
- catalogio, ailgartrefu a rhaglen sganio gyfredol archif cerddoriaeth Cymru;
- cefnogi cyhoeddi gweithiau gan Grace Williams nas cyhoeddwyd o'r blaen, gan gynnwys *Missa Cambrensis* a'i symffoni rhif 1 a 2, a lansiwyd ar 1af Mawrth 2010;
- datblygu a hyrwyddo *Cyfres Cyfansoddwyr Ifanc* (fel rhan o ŴYl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru) a estynnwyd i 12 ysgol yng Ngogledd Cymru;
- llwyddiant stiwdio recordio Tŷ Cerdd, gyda recordiadau cymorthdaledig o gerddoriaeth gan gyfansoddwyr Cymreig;
- Tŷ Cerdd yn cefnogi(2008-09 mewn cromfachau) cyflogi cerddorion proffesiynol hyfedr mewn 97 (99) cyngerdd a 61 (57) o sioeau theatr gerdd - (277 (268) o berfformiadau);
- gweithdai repertoire a hyfforddi a dosbarthiadau meistr gan ymelwa ar bartneriaethau a chydweithrediadau;
- trefnu 62 o berfformiadau am ddim gan gerddorion o bob cwr o Gymru yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, gan gyrraedd cynulleidfa o bron 7,000;
- perfformiadau o safon eithriadol uchel gan yr ensemblau cerdd cenedlaethol i ieuenctid dan gyfarwyddwyr cerdd sydd wedi ennill bri cenedlaethol a rhyngwladol; yn cynnwys perfformiadau yn *Proms* y BBC yn Llundain, *Proms* Cymru, yn ogystal â gwyliau eraill;
- taith gyngerdd Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru yn ystod Pasg 2009, yn rhoi llwyfan i gyfansoddiadau newydd gan gyfansoddwyr o Gymru. (Ers 1986, mae ensemblau cerdd cenedlaethol ieuenctid Tŷ Cerdd wedi bod ar deithiau cyngerdd i'r Iseldiroedd, Norwy, Ffrainc, Hwngari, Awstria, yr Almaen, gwlad Belg, Canada a Lwcsembwrg, yn ogystal â thrwy Gymru a Lloegr.)
- llwyddiant parhaus y cynllun *Synau Iachus!* lle gwelwyd dros 3,500 o berfformwyr yn 2009/10 yn rhoi 265 o gyngherddau i bron 13,000 o gleifion a staff mewn ysbytai a chartrefi gofal ym mhob cwr o Gymru;
- cynnydd amlwg yn yr aelodaeth dros Gymru gyfan; cyrraedd dros 400 o gymdeithasau sy'n perfformio cerddoriaeth, gyda chysylltiadau ychwanegol â sefydliadau eraill.
- dechrau ar y gwaith o ail-greu gwefan Tŷ Cerdd yn llwyr – i'w gwblhau yn 2010-11.

Summary of activities and achievements in 2009-10:

- each of the 10 new Tŷ Cerdd music commissions received repeat performances;
- *Farewell*, by Adam Gorb, commissioned by Tŷ Cerdd for the National Youth Wind Orchestra of Wales, gained a British Association of Songwriters, Composers and Authors (BASCA) British Composer Award;
- cataloguing, re-housing and current scanning programme of the Welsh music archive.
- support for the publication of previously unpublished works by Grace Williams, including *Missa Cambrensis,* and her first and second symphonies, launched on 1st March 2010;
- development and promotion of *Young Composers Series* (as part of the North Wales International Music Festival) extended to 12 schools in north Wales;
- success of the Tŷ Cerdd recording studio, with subsidised recordings of music of Welsh composers;
- Tŷ Cerdd support (2008-09 in brackets) for the employment of skilled music professionals in 97 (99) concerts and 61 (57) music theatre shows (277 (268) performances);
- repertoire and training workshops and master classes exploiting partnerships and collaborations;
- organisation of 62 free performances by musicians from all parts of Wales at the Wales Millennium Centre, reaching an audience of nearly 7,000;
- performances of an exceptionally high standard under music directors of national and international standing by national youth music ensembles, including performances at the BBC London Proms, the Welsh Proms, and other festivals;
- tour in Easter 2009 of National Youth Wind Orchestra of Wales, featuring new compositions by Welsh composers. (Since 1986, Ty Cerdd national youth music ensembles have toured The Netherlands, Norway, France, Hungary, Austria, Germany, Belgium, Canada and Luxembourg, as well as throughout Wales and England.)
- continuing success of the *Healthy Sounds!* scheme in which in 2009/10 over 3,500 performers gave 265 concerts to nearly 13,000 patients and staff in hospitals and care homes in all parts of Wales;
- marked increase in membership throughout Wales reaching over 400 music-performing organisations, with additional links to other organisations.
- commencement of complete re-build of Tŷ Cerdd website, to be completed in 2010-11.

Yn fanylach:

Cadwodd Tŷ Cerdd at ei bolisi o gomisiynu cyfansoddwyr, yn rhagweithiol yn ogystal ag adweithiol.

- Gwariwyd £10,250 gan Tŷ Cerdd ar gomisiynau cerdd, naill ai'n uniongyrchol, neu mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill. Ymhlith y comisiynau roedd:

Gareth Glyn	Consierto Utgorn (Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru - CChGIC
Ed Puddick	gwaith ar gyfer ensemble jazz (Jazz Cenedlaethol Ieuenctid Cymru)
Peter Graham	*On the Shoulders of Giants* (Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a Band y Cory)
Brian Hughes	*Breuddwyd Eleazer Roberts* (Côr Godre'r Garth)
	Trafod (Sinffonia Cymru)
